# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Hydref 2020

Amser: 14.30 - 16.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6556

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Nick Ramsay AS |
| Tystion: | Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>David Meaden, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Chris Vinestock, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Suzy Davies AS, Comisiynydd<br>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 FIN(5)-18-20 PTN 1 - Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 - 28 Medi 2020**

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - 21 Medi 2020**

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Cynllun Gwaith Polisi Treth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 - 29 Medi 2020**

**2.4 PTN 4 - Llythyr gan Archwilio Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau - Cymhwysedd Deddfwriaethol - 30 Medi 2020**

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22 Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Suzy Davies AS, sef y Comisiynydd dros y Gyllideb a Llywodraethiant; Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd; a Nia Morgan, y Cyfarwyddwr Cyllid ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2021-22.

3.2 Cytunodd y Comisiwn i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda rhagor o wybodaeth am ei strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu; a rhoi rhagor o fanylion am ailstrwythuro swyddi penodol o fewn y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu.

## 4 Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22: Sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; Chris Vinestock, Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella; a David Meaden, Cyfrifydd Ariannol Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a dechrau cyfarfod y Pwyllgor ar 12 Hydref.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Craffu ar Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2021-22 Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.